

# Mae Adroddiad y Prif Gynghorydd Gwyddonol yn datgelu'r safonau data sy'n gwella diogelwch bwyd

Yn ei [wythfed adroddiad](#), mae'r Athro Poppy yn edrych ar sut mae gwaith ar safonau data yn ceisio sicrhau bod data'r ASB ar gael yn hawdd, gan sicrhau data o ansawdd y gellir ei ddefnyddio ar draws y diwydiant bwyd er mwyn helpu i gadw bwyd yn ddiogel ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Meddai'r Athro Poppy:

'Yma yn yr ASB, rydym ni'n gweithio i greu diwylliant data cryf, gan gryfhau ein safle fel sefydliad sy'n defnyddio data. Ar ei ben ei hun, nid oes fawr o werth i ddata, a dim ond wrth ei drawsnewid yn wybodaeth a gweithredu ar yr wybodaeth honno y daw'n werthfawr.'

Mae'r adroddiad yn amlinellu pa mor bwysig yw safonau data i'r ASB, y dull tuag at fabwysiadu a defnyddio, ac mae'n darparu enghreifftiau go iawn o'r meysydd hynny lle mae defnyddio'r safonau data yn cael effaith.

Mae'r adroddiad yn cynnwys tri maes:

- Mabwysiadu: defnyddio safonau cydnabyddedig a grëwyd ac a gynhelir gan eraill, fel defnyddio data safonol am yr hinsawdd a'r tywydd i lywio rhaglen arolygu strategol yr ASB
- Consensws: gweithio gydag eraill yn y diwydiant bwyd i gytuno ar safonau cyffredin, fel Casglu a Chyfathrebu Canlyniadau Arolygu (CCIR) a ddatblygwyd gyda diwydiant cig y Deyrnas Unedig (DU)
- Perchnogaeth: gosod, rheoli a chynnal safonau data clir, diamwys ar gyfer gwaith yr ASB fel rheoleiddiwr, gan sicrhau bod yr asiantaeth ac eraill yn defnyddio data'n effeithiol. Enghraifft o hyn yw datblygu rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) i safoni a chodi proffil ein rhybuddion bwyd

Meddai Julie Pierce, Cyfarwyddwr Bod yn Agored, Data a Digidol, a Chymru yn yr ASB:

'Mae data fel seilwaith yn hanfodol mewn byd lle mae natur, maint a hygyrchedd data yn cynyddu'n gynt. Mae angen i ni fuddsoddi mewn safonau data i wella dulliau casglu a phrosesu data a'n galluogi ni i fanteisio ar gyfleoedd o ran deallusrwydd artifisial a dysgu peiriannol, sydd angen llawer o ddata.

'Mae safonau data yn datblygu dros amser wrth i anghenion defnyddwyr newid. Am y rheswm hwn, rydym ni eisiau datblygu safonau data mewn ffordd hyblyg a pharhau i gefnogi'r gymuned ddata trwy chwilio am safonau perthnasol a defnyddiol i'w mabwysiadu.'

## Beth yw safonau data?

Mae safonau data yn rheolau sy'n disgrifio ac yn cofnodi setiau data. Er mwyn rhannu, cyfnewid, a deall data, rhaid safoni'r fformat a'r ystyr mewn ffordd y gellir eu deall yn glir.

Mae safoni data yn ein galluogi ni i rannu ac i aildefnyddio set ddata yn hawdd. Er enghraifft, pan fyddwch chi'n prynu batris, nid oes angen i chi boeni am ba fath o fatris rydych chi'n eu prynu: bydd batri AA o unrhyw frand yn ffitio i mewn i ofod AA.

Caiff gwerth data ei wireddu'n haws pan fydd angen i ddefnyddwyr wneud cyn lleied o waith â phosibl i lanhau neu ailfformatio'r data ar gyfer eu hanghenion. Safonau data yw'r hyn sy'n ein galluogi ni i gyflawni hyn. ??

## Gwaith cysylltiedig ar wyddoniaeth data yn yr ASB

Mae gan Gyngor Gwyddoniaeth yr ASB, sy'n darparu cyngor a her strategol annibynnol ar sut mae'r ASB yn defnyddio gwyddoniaeth, weithgor sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio data a thechnoleg ddigidol.

Mae gwaith y gweithgor ar gael ar [wefan y Cyngor Gwyddoniaeth](#).